**Llais Rhanbarth Gwent**

# Adroddiad ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - Cyfarfod Bwrdd Cyhoeddus

Tachwedd 2023



**Fformatau hygyrch**

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael yn Gymraeg.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni. Gallwch ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa:

01633 838516

gwentenquiries@llaiscymru.org

Llais Rhanbarth Gwent,

Tŷ Rhaglan,

Clos William Brown

Cwmbrân

NP44 3AB

www.llaiscymru.org

www.llaiswales.org

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Am Llais | 4 |
| Rhagarweiniad | 4 |
| Cynllun 100 diwrnod Llais – cyfnod pontio | 5 |
| Diweddariad Llais Rhanbarth Gwent | 6 |
| Gweithgareddau sydd ar ddod | 8 |
| Diolch | 10 |
| Adborth | 10 |

# Am Llais

Mae Llais yn gorff statudol, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi llawer mwy o lais i bobl Cymru wrth gynllunio a darparu eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol – yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Rydym yma i ddeall barn a phrofiadau pobl o iechyd a gofal cymdeithasol, ac i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn defnyddio adborth i lunio gwasanaethau.

Rydym yn chwilio am straeon da a drwg fel ein bod yn deall beth sy'n gweithio'n dda a sut y gallai fod angen i wasanaethau wella. Rydym hefyd yn ceisio siarad â'r rhai nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml.

Mae 7 Rhanbarth Llais yng Nghymru. Rydym i gyd yn gweithio gyda'n gilydd i gynrychioli lleisiau pobl mewn perthynas â'u hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol.

# Rhagarweiniad

Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan am faterion cyfredol sy’n peri pryder a sylwadau cadarnhaol, neu adborth y cyhoedd y mae Llais Rhanbarth Gwent yn mynd i’r afael â hwy mewn perthynas â chynllunio a darparu gwasanaethau iechyd.

Mae Llais yn parhau i weithio o ran ymgysylltu â'r boblogaeth, craffu, a chynnig her annibynnol i'r GIG a gofal cymdeithasol, i fonitro ac ystyried newidiadau arferol a brys i wasanaethau. Rydym hefyd yn parhau i ddarparu Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion annibynnol.

# Cynllun 100 diwrnod Llais – cyfnod pontio

Pan lansiwyd Llais ar 1 Ebrill 2023, cyhoeddwyd ein cynllun 100 diwrnod, a oedd yn nodi ein bwriadau, ein cynlluniau a'n hamcanion cenedlaethol ar gyfer 100 diwrnod cyntaf y sefydliad newydd. Mae manylion llawn ein cynllun ar gael ar ein gwefan yma: Ein cynllun 100 diwrnod | Llais (llaiscymru.org)

Yn gryno, roedd ein cynllun yn ystod y 100 diwrnod cyntaf yn cynnwys:

- Cynnal presenoldeb rhanbarthol.
- Cynhyrchu a chyhoeddi cynlluniau rhanbarthol.
- Datblygu ein Polisi Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant.
- Datblygu ffyrdd digidol newydd o weithio.
- Lansio ymgyrch wirfoddoli genedlaethol.
- Lansio ein hymgyrch farchnata.
- Datblygu sut rydym yn gweithio gydag eraill.
- Cyflwyno gwaith y CICau ar ymholiad Covid-19 y DU.
- Penodi i rolau newydd Llais.
- Cyhoeddi ein hymateb i'r Cod Ymarfer drafft (mynediad i fangreoedd).
- Gweithio mewn partneriaeth â chyrff cynrychioli dinasyddion eraill y DU.
- Ymgysylltu â'r boblogaeth.
- Rhannu'r hyn a glywn gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.
- Cefnogi pobl i godi pryderon.

Mae ein cynllun blynyddol rhanbarthol yn cynnwys gwaith etifeddol a drosglwyddwyd gan CIC Aneurin Bevan, er mwyn sicrhau parhad, yn ogystal â gweithgareddau ac eitemau newydd o waith a hysbyswyd gan yr ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2023. Mae'r eitemau canlynol yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu peth o'r gwaith newydd yr ydym yn ei wneud, a gwaith etifeddiaeth y CIC. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith etifeddiaeth hwnnw wrth i'r sefydliad newydd ddatblygu. Rydym wedi ymrwymo i barhau i gynrychioli ein cymunedau ac yn arbennig ein cleientiaid sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fel bod ganddynt lais wrth ddylunio a darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

# Diweddariad Llais Rhanbarth Gwent

## Gweithgareddau cyfredol ac adborth:

### 1. Adborth y cyhoedd wrth ein gwasanaeth Eiriolaeth

Rhwng 1 Medi a 31 Hydref 2023, mae ein gwasanaeth Eiriolaeth wedi derbyn 73 o gysylltiadau newydd gan aelodau'r cyhoedd gydag ymholiadau neu bryderon ffurfiol am iechyd neu ofal cymdeithasol.

- Roedd 57 o'r cysylltiadau hynny yn ymwneud â'r GIG ac roedd 1 o'r cysylltiadau hynny yn ymwneud â Gofal Cymdeithasol.
- Roedd 15 o'r cysylltiadau yn ymholiadau cyffredinol am y GIG. Mae ymholiadau wedi bod yn gymysg o ran eu pwnc yn amrywio o amseroedd aros am ganlyniadau profion, amseroedd aros ar gyfer llawdriniaethau, amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau ENT ynghyd â phryderon yn ymwneud â chludiant ysbyty a rhyddhau/trosglwyddo o'r ysbyty.
- Dychwelwyd 37 o ffurflenni awdurdodi yn ystod y cyfnod hwn i ddilyn cwyn ffurfiol. Mae gwasanaethau a phynciau pryder hefyd wedi bod yn gymysg ond maent yn cynnwys Gofal yr Henoed, Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion ac amseroedd aros am lawdriniaeth/apwyntiadau.

### 2. Sylwadau yr ydym wedi'u gwneud neu wedi bod yn rhan ohonynt

Mae gennym ddyletswydd i gyflwyno sylwadau i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar ran ein poblogaeth pan allai gwasanaethau newid neu pan fyddwn yn clywed am faterion perfformiad iechyd a gofal cymdeithasol sy'n effeithio ar brofiadau pobl (yn gadarnhaol neu'n negyddol). Mae'n bosibl y byddwn yn gwneud y sylwadau hyn drwy lythyr ffurfiol, mewn e-byst neu drwy fynychu grwpiau/cyfarfodydd gwasanaeth cynlluniedig a gynhelir gan ein partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol.

Ers 1 Ebrill 2023, rydym wedi bod yn rhan o'r canlynol neu wedi gwneud sylwadau ar y canlynol:

- Cais Grŵp Practis Crucywel i gau ei feddygfa gangen yng Ngilwern (mater trawsffiniol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys) – gohebiaeth ffurfiol.
- Cynigion Gwasanaethau Mamolaeth ar gyfer gwasanaethau dan arweiniad Bydwragedd
- Paneli Gofal Sylfaenol ar gyfer meddygfa Gangen Deri, practis gwag Canolfan Feddygol Churchwood, practis gwag Canolfan Feddygol Lawn a phractis gwag Meddygfa Mount, a Meddygfeydd Cangen Goetre a New Inn
- Trosglwyddiadau Damweiniau ac Achosion Brys gan y criw Ambiwlans a phrofiadau pobl wrth aros yn yr Adran Achosion Brys.
- Datblygiadau gwasanaeth adsefydlu strôc
- Datblygiadau ad-drefnu adrannau/unedau YCLg

ac fe fynychon ni:

- Bwrdd prosiect Canolfan Iechyd a Lles Tredegar
- Pwyllgor Canlyniadau Ansawdd a Diogelwch Cleifion
- Grŵp Llywio Cleifion Allanol
- Rhaglen Trawsnewid Cleifion Allanol
- Grŵp Gweithredol Gwasanaethau Gwell
- Bwrdd Cynaliadwyedd
- Pwyllgor Meddygol Lleol Gwent
- Datblygiad Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth (NCN)

## 3. Ymgysylltiad yng Ngwent

Ers 1 Ebrill, rydym wedi mynychu digwyddiadau ymgysylltu ledled Gwent, ac rydym wedi siarad â thros 540 o bobl i gyd.

Mae'r digwyddiadau rydym wedi'u mynychu hyd yn hyn yn cynnwys digwyddiad Gofalwyr Casnewydd a Barnardo's, Digwyddiad Mawr Cwmbrân, Pride Caerffili, Parti yn y Parc Pont-y-pŵl, Viva Fest, digwyddiad Gwirfoddoli Brynmawr, Ras Rafftiau Sir Fynwy, Fforymau Rhwydweithio Agor Drysau Cynghrair Gwirfoddol Torfaen a Sioe Brynbuga.

Rydym wedi penderfynu cynyddu ein hymgysylltiad cymunedol gan ei bod yn hanfodol bod pobl yng Ngwent yn gwybod am ein sefydliad pe bai angen iddynt gysylltu â ni. Rydym wedi trefnu i fynychu canolfannau dydd, hybiau cymunedol, ac archfarchnadoedd ac ati yng Ngwent.

Ers trefnu hyn, mae ein gwirfoddolwyr ymgysylltu cymunedol wedi ymgysylltu â phobl yn Nhorfaen a Sir Fynwy. Mae cynlluniau wedi'u rhoi ar waith i fynychu mannau cymunedol yng Nghasnewydd, a bydd staff yn mynychu Llyfrgelloedd ledled Gwent.

Mae adborth y GIG wedi cynnwys:

- Angen "mwy o staff" ar gyfer pob gwasanaeth, yn enwedig yn yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol Y Faenor.
- Mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl.
- Rhestrau aros gofal wedi'i gynllunio'n "rhy hir."
- Mae'n anodd cael apwyntiadau meddyg teulu oherwydd bod y llinellau ffôn yn brysur yn y bore.

## 4. Polau Arolwg Ymadael Meddygon Teulu: Canolfan Iechyd Malpas Brook

Ar 12 a 13 Hydref, aeth ein gwirfoddolwyr ymweld i Ganolfan Iechyd Malpas Brook. Pwrpas hyn oedd i'n wirfoddolwyr sefyll y tu allan i'r practisau ac ymgysylltu â phobl wrth iddynt adael, i ofyn iddynt a hoffent roi adborth i ni o sut brofiad yw iddynt gael mynediad i'w practis.

Er mwyn gwneud hyn, gwnaethom gysylltu â rheolwr y practis i roi gwybod iddynt y byddai ein gwirfoddolwyr ymweld yn mynychu, a pha ddiwrnodau yr oeddem yn bwriadu ymweld â nhw. Fe wnaethom hefyd anfon poster a phecynnau arolwg i'r practis cyn ein hymweliadau, fel bod pobl yn cael y cyfle i lenwi'r arolygon cyn i ni fynychu. Roedd rheolwr y practis yn croesawu'n fawr ein gwirfoddolwyr ymweld i'w practis i gynnal arolygon y tu allan.

Yn gyfan gwbl, cawsom 17 o ymatebion i'n harolwg.

Bydd adroddiad briffio yn cael ei ddrafftio a'i gyflwyno i'r BIP.

**N.B.** *Mae pob arolwg yn cael ei lansio'n ddwyieithog ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol ac maent ar gael mewn fformatau ac ieithoedd*

*eraill ar gais. Rydym hefyd yn rhannu arolygon gyda'n rhanddeiliaid allanol, er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd cymaint o bobl â phosibl.*

# Gweithgareddau sydd ar ddod:

### 1. Arolwg: Trawma ac Orthopedig - Clun a Phen-glin

Fel y soniwyd yn ein hadroddiad blaenorol, rydym yn mynd i lansio arolwg i ddarganfod profiadau pobl o aros am lawdriniaeth clun neu ben-glin yn ardal Gwent.

Rydym yn y broses o drefnu arolygon i'w hanfon i safleoedd perthnasol BIPAB.

### 2. Arolwg: Pontio o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol Plant i Oedolion.

Fel y soniwyd yn ein hadroddiad blaenorol, byddwn yn gweithio ar y cyd â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i ganfod profiadau pobl ifanc o newid o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym yn y broses derfynol o lansio'r prosiect hwn.

### 3. Prosiect Profiad Cleifion y Gaeaf

Ym mis Rhagfyr byddwn yn dechrau cynllunio ar gyfer ein Prosiect Profiad Claf y Gaeaf blynyddol. Pwrpas y prosiect hwn yw darganfod profiadau pobl o gael mynediad i wasanaethau'r GIG mewn Uned Mân Anafiadau neu'r Adran Achosion Brys. Byddwn yn ystyried y pwysau presennol ar y BIP a phobl, gan gynnwys misoedd y gaeaf sy'n dod â phwysau ychwanegol a sut y gall hyn effeithio ar brofiad y claf.

Bydd gwirfoddolwyr ymweld Llais yn ymweld â'r adrannau hyn i gael adborth gan bobl wyneb yn wyneb.

Bydd briffiau wythnosol yn cael eu hanfon at gydweithwyr yn y BIP i roi crynodeb iddynt o'r adborth a gawsom o'r wythnos flaenorol.

Byddwn yn bwriadu lansio'r prosiect hwn ar ddechrau Ionawr 2024, a bydd yn rhedeg am 6 wythnos.

Bydd gohebiaeth yn cael ei hanfon yn fuan at gydweithwyr yn y BIP i'w hysbysu o'n bwriad i lansio'r prosiect hwn, gyda'r gobaith o barhau i'w cefnogi fel y blynyddoedd blaenorol.

## Diolch

Diolchwn i bawb a roddodd o'u hamser i rannu eu barn a'u profiadau gyda ni am eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a rhannu eu syniadau gyda ni.

Gobeithiwn fod yr adborth y mae pobl wedi'i gymryd o'u hamser i rannu yn dylanwadu ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i gydnabod a gwerthfawrogi'r hyn y maent yn ei wneud yn dda – a gweithredu lle mae angen iddynt wneud cyn gynted ag y gallant.

## Adborth

Byddem wrth ein bodd yn clywed eich barn am y cyhoeddiad hwn, ac unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gallem fod wedi ei wella, fel y gallwn ei ddefnyddio i wella ein gwaith yn y dyfodol.